# Hunan Asesiad Siarter Angor Gogledd Cymru - Cyngor Gwynedd 29/7/26

**SIARTER ANGOR**
Gogledd Cymru

Gweithlu, Cyflogaeth a Sgiliau — Workforce, Employment & Skills
Adeiladau a Thir — Buildings & Land
Effeithiau Amgylcheddol — Environmental Impacts
Cyfranogiad Cymunedol — Community Involvement
Caffael a Gwariant — Procurement & Spend

North Wales
**ANCHOR CHARTER**

**Canllaw Sgorio:**

| Sgôr | Lefel | Diffiniad |
|---|---|---|
| 1 | Heb ddechrau | Dim gweithgarwch ffurfiol; ymwybyddiaeth gyfyngedig neu gamau achlysurol. |
| 2 | Cychwyn | Rhywfaint o weithgarwch cynnar neu brosiectau peilot; ddim yn gyson nac yn strategol. |
| 3 | Wrthi'n datblygu | Dull clir wedi'i sefydlu; wedi'i weithredu'n rhannol ond heb ei wreiddio. |
| 4 | Wedi'i sefydlu | Wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad; yn cael ei fonitro ac yn cael ei gyflawni'n rheolaidd. |
| 5 | Arwain | Yn dangos effaith fesuradwy; yn arloesol; yn dylanwadu ar bartneriaid / y rhanbarth. |

| Siarter Angor Rhanbarthol | Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 | Gwaith Dydd i Ddydd | Sgôr (1-5) |
|---|---|---|---|
| **1. Gweithlu, cyflogaeth a sgiliau** | | | |
| **1.1** Byddwn yn ceisio talu'r cyflog byw go iawn a sicrhau telerau ac amodau teg, gan leihau contractau ansicr a chefnogi lles a diogelwch ariannol staff. | **Creu'r amgylchiadau gorau posibl i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu** a **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd** – cefnogi busnesau sy'n talu'r cyflog byw gwirioneddol, creu swyddi gwell a chryfhau economi leol fwy cynhwysol. | Cymhwyso trefniadau cyflog, telerau ac amodau a pholisïau cyflogaeth y Cyngor, e.e. trefniadau AD, rheoli contractau, recriwtio teg a chefnogi sefydlogrwydd ariannol staff. | 3.5 |
| **1.2** Byddwn yn creu cyfleoedd i'r bobl bellaf o'r farchnad lafur gael mynediad at hyfforddiant, prentisiaethau a chyflogaeth o fewn ein sefydliad, a hyrwyddo cyfleoedd dilyniant a hyfforddiant i'n staff. | **Cefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith**, **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd** a **Datblygu diwylliant y Cyngor** – cryfhau llwybrau i waith, gwella sgiliau a galluogi datblygiad staff. | Darparu prentisiaethau, profiad gwaith, hyfforddiant mewn swydd a llwybrau datblygu staff, e.e. drwy raglenni graddedigion a phrentisiaethau'r Cyngor a chynlluniau datblygu gweithlu gwasanaethau.<br><br>Ceir enghreifftiau penodol o fewn y maes gofal ar ffurf yr Academi Gofal a phrosiect Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd sy'n cefnogi pobl hefo anableddau dysgu a iechyd meddwl i gael gwell mynediad i waith. | 3.5 |
| **1.3** Byddwn yn cefnogi iechyd a lles staff trwy gynnig cryf sy'n canolbwyntio ar atal, gan gynnwys cyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol yn y gwaith a chael mynediad at fwyd a diod iach. | **Datblygu diwylliant y Cyngor** – gwreiddio diwylliant gwaith sy'n galluogi staff i gyflawni, gyda ffocws ar lesiant, grymuso a rhoi pobl Gwynedd yn ganolog. | Gweithredu trefniadau llesiant staff, gweithio hyblyg, iechyd a diogelwch a rheoli absenoldeb, e.e. drwy gymorth rheolwyr, polisïau AD a threfniadau llesiant corfforaethol.<br><br>Polisi a gweithdrefnau salwch newydd wedi eu lansio i sicrhau bod absenoldebau salwch yn cael eu rheoli'n gyson ac yn deg, gan gadw | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn cysylltiad â staff a darparu'r gefnogaeth briodol i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith. | |
| **1.4** Byddwn yn cryfhau effaith iechyd ein gweithlu trwy hyrwyddo mynediad at hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC), gan helpu staff a defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau iachach a mwy cynaliadwy. | **Cefnogi Llesiant Pobl** – cryfhau cefnogaeth gymunedol i helpu trigolion i ymdopi, ffynnu, bod yn ddiogel ac aros yn iach. | Defnyddio cyswllt dyddiol gwasanaethau rheng flaen â thrigolion, e.e. gwasanaethau gofal, tai, llyfrgelloedd a chymorth cymunedol, i rannu gwybodaeth a chyfeirio at gymorth priodol.<br><br>Cwestiwn ynghylch a yw wedi ei wreiddio a pha mor effeithiol?<br><br>Cyfle i ychwanegu at sgiliau unigolion i gyfarch hyn os ydym am ddatblygu hybiau cymunedol a gwella gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.<br>Pwysigrwydd cysylltu hefo’r sgwrs beth sy’n bwysig er mwyn galluogi pobl i wella eu sefyllfaoedd. | 3 |
| **1.5** Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg a Sefydliadau Angor i ymateb i anghenion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol a gwella llwybrau cyflogaeth hygyrch. | **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd**, **Cefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith** a **Creu’r amgylchiadau gorau posibl i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu** – gwella sgiliau, creu swyddi gwell a gweithio gyda chyflogwyr i ymateb i anghenion y dyfodol. | Adnabod anghenion sgiliau drwy gynllunio gweithlu gwasanaethau, e.e. recriwtio i rolau gofal, cynlluniau hyfforddi mewnol, prentisiaethau a datblygu sgiliau digidol a rheolaethol staff. | 4 |
| **1.6** Byddwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy gefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn rolau sy'n | **Hybu defnydd o’r Gymraeg gan drigolion Gwynedd**, **Nôl i Wynedd** ac **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o’r Gyfundrefn Drochi** – | Gweithredu safonau’r Gymraeg, cynnig hyfforddiant iaith i staff a darparu gwasanaethau dwyieithog, e.e. drwy | 4.5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wynebu'r cyhoedd, gan gyfrannu at uchelgais Cymraeg 2050. | cynyddu defnydd ymarferol o'r Gymraeg, denu a chadw siaradwyr Cymraeg, a chryfhau sylfaen ieithyddol y dyfodol. | wasanaethau cyswllt cyhoeddus, addysg, gofal a gwasanaethau digidol Cymraeg. | |
| **2. Ystadau** | | | |
| **2.1** Byddwn yn archwilio ac adolygu ein defnydd o adeiladau a thir presennol er mwyn nodi cyfleoedd posibl rhagweithiol yn y dyfodol ar gyfer defnydd cymunedol a gwirfoddol. | **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo**, **Adfywio cymunedau a chanol trefi** a **Sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd** – adolygu defnydd asedau, cefnogi blaenoriaethau lleol a chynllunio tir ac adeiladau yn unol ag anghenion cymunedau. | Rheoli ac adolygu defnydd eiddo, tir ac adeiladau'r Cyngor, e.e. swyddfeydd, canolfannau cymunedol, ysgolion, llyfrgelloedd ac asedau gwag neu dan-ddefnydd.<br><br>Dim llawer o adeiladau ar gael ar gyfer hyn oherwydd fod gwaith rhesymoli. | 4 |
| **2.2** Byddwn yn cynnwys cymunedau yn gynnar wrth gynllunio datblygiadau newydd. | **Adfywio cymunedau a chanol trefi**, **Sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd** a **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo** – ymgysylltu â chymunedau, cynllunio datblygiadau lleol a sicrhau defnydd priodol o'r ystâd. | Cynnwys trigolion a chynghorau cymuned drwy ymgynghoriadau lleol, Cynlluniau Adfywio Lleol, cynllunio defnydd asedau a phrosesau cynllunio datblygiadau'r Cyngor.<br><br>Rhai enghreifftiau cryf (megis gwaith Ardal Ni) ond yn dameidiog. | 3 |
| **3. Effeithiau amgylcheddol** | | | |
| **3.1** Byddwn yn ymrwymo i deithio cynaliadwy ac egnïol drwy fabwysiadu'r Siarter Teithio Llesol a rhannu dysgu ledled Gogledd Cymru. | **Teithio llesol** a **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** – gwella llwybrau cerdded a beicio a lleihau allyriadau drwy hyrwyddo teithio cynaliadwy bob dydd. | Darparu a chynnal llwybrau teithio llesol, e.e. llwybrau cerdded a beicio, cynlluniau diogelwch ffyrdd, rheoli parcio a hyrwyddo teithio cynaliadwy i staff a thrigolion. | 4 |
| **3.2** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i leihau allyriadau carbon, lleihau gwastraff, gwella seilwaith | **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**, **Gwastraff ac ailgylchu**, **Gweithredu ar risgiau llifogydd**, **Teithio llesol** a **Sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd** – lleihau | Lleihau effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Cyngor, e.e. rheoli ynni adeiladau, fflyd, gwastraff ac ailgylchu, | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwyrdd a bioamrywiaeth, ac addasu i newid yn yr hinsawdd. | carbon a gwastraff, cynyddu bioamrywiaeth, addasu i newid hinsawdd a chynllunio datblygiad cynaliadwy. | prosiectau bioamrywiaeth, gwaith llifogydd a chynllunio hinsawdd. | |
| **4. Cynnwys cymunedol a gweithredu dinesig** | | | |
| **4.1** Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy fabwysiadu Camau Gweithredu'r Cenhadaethau Atal. | **Sicrhau tegwch i bawb** – adnabod a gweithredu ar waith sydd ei angen i sicrhau triniaeth deg i bawb, beth bynnag eu cefndir neu anghenion. | Defnyddio asesiadau effaith cydraddoldeb wrth ddatblygu polisïau, penderfyniadau Cabinet, cynlluniau gwasanaeth a newidiadau i wasanaethau er mwyn hyrwyddo tegwch. (Ffurflen asesu'r effaith ar gydraddoldeb, anfantais economaidd gymdeithasol a'r iaith Gymraeg) | 3 |
| **4.2** Byddwn yn ymgorffori dulliau Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau (ABCD) o ddatblygu strategaeth, cynllunio a darparu gwasanaethau. | **Adfywio cymunedau a chanol trefi**, **Cefnogi Llesiant Pobl** a **Sicrhau tegwch i bawb** – defnyddio ymgysylltu ac asedau cymunedol i adnabod blaenoriaethau lleol, cryfhau rhwydweithiau cefnogi a sicrhau dull cynhwysol. | Defnyddio gwybodaeth leol ac adborth trigolion drwy waith adfywio, timau cymunedol, ymgynghoriadau gwasanaeth a rhwydweithiau lleol i deilwra gwasanaethau'r Cyngor. | 3 |
| **4.3** Byddwn yn annog ac yn galluogi staff i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol a gwirfoddol. | **Cefnogi Llesiant Pobl** – cryfhau rhwydweithiau cymunedol sy'n cefnogi trigolion, gan ategu gweithgarwch gwirfoddol a chymunedol lleol. | Cefnogi staff i gyfrannu at weithgareddau cymunedol lle bo'n briodol, e.e. drwy waith ysgolion, llyfrgelloedd, gwasanaethau ieuenctid, digwyddiadau lleol a mentrau llesiant cymunedol. | 1.5 |
| **4.4** Byddwn yn cefnogi mynediad teg i gyfleoedd celfyddydol, treftadaeth a lles diwylliannol i'n staff a'n cymunedau lleol. | **Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy**, **Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd** a **Sicrhau tegwch i bawb** – ehangu mynediad teg at | Darparu gwasanaethau llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd, celfyddydau, hamdden a diwylliant, e.e. rhaglenni lleol, | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiwylliant, treftadaeth, y Gymraeg a gweithgareddau sy'n cyfrannu at les cymunedol. | gweithgareddau i blant a phobl ifanc a mynediad at dreftadaeth Gwynedd.<br><br>Tocynnau am ddim ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel i Eisteddfod Boduan. | |
| **5. Caffael** | | | |
| **5.1** Byddwn yn caffael yn lleol lle bo hynny'n bosibl, gan ddefnyddio partneriaethau cymdeithasol i gefnogi twf lleol, cyflogaeth, gwerth cymdeithasol, a budd amgylcheddol. | **Cadw'r Budd yn Lleol**, **Creu'r amgylchiadau gorau posibl i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu**, **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd** a **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** – cadw gwariant yn lleol, cefnogi busnesau, creu gwerth cymdeithasol a hyrwyddo buddion amgylcheddol. | Cymhwyso trefniadau caffael y Cyngor, e.e. ystyried cyflenwyr lleol, gwerth cymdeithasol, buddion cymunedol a lleihau carbon wrth gomisiynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau. | 3 |
| **5.2** Byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i nodi cyfleoedd ar gyfer caffael ar y cyd lle mae hyn yn cyflawni canlyniadau gwell. | **Cadw'r Budd yn Lleol**, **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd** a **Creu'r amgylchiadau gorau posibl i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu** – cydweithio â phartneriaid a busnesau i sicrhau canlyniadau gwell, swyddi lleol a gwerth cymdeithasol. | Defnyddio fframweithiau a chytundebau caffael y Cyngor, e.e. contractau cynnal a chadw, gwasanaethau proffesiynol, nwyddau corfforaethol a chontractau rhanbarthol lle maent yn cynnig gwerth gwell.<br><br>Mae llawer o waith comisiynu yn digwydd ar y cyd â phartneriaid, er enghraifft ym maes cyfiawnder ieuenctid, arian troseddau cyfundrefnol, cydweithio hefo Mantell Gwynedd ar ragnodi cymdeithasol a gwaith VAWDASV gyda phartneriaid ar Ynys Môn. | 4 |